

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI

2021-22

GOVERNOR'S ANNUAL REPORT TO PARENTS



Dyma gopi llawn o adroddiad y Llywodraethwyr i rieni/gwarcheidwaid; sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ysgol o Fedi 2021 hyd ddiwedd Gorffennaf 2022.

Mae'r Llywodraethwyr yn hapus iawn i ymateb i unrhyw geisiadau unigol am wybodaeth bellach a gellir cysylltu â hwy drwy swyddfa'r ysgol.

Cynhelir cyfarfod i gyflwyno a thrafod yr Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid os bydd mwy na 10% o rieni yn ysgrifennu cais ffurfiol *.

Please find the Governors' full report to parents / guardians; which includes information on the performance of the school from September 2021 to the end of July 2022.

The Governors are happy to respond to any individual requests for further information and can be contacted through the school office.

*A meeting will be held to present and discuss the Annual Report to Parents / Guardians if more than 10% of parents write a formal application *.*

YSGOL GLAN CONWY
Glan Conwy
LL28 5ST

Ffôn/Phone: 01492 580421
E-mail/E-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Cadeirydd/Chairman:
Mrs Mary Oliver

Clerc Dros Dro/ Temporary Clerk:
Mrs Jane Wright

Pennaeth / Headteacher: Mrs E.Price Williams

GAIR GAN Y CADEIRYDD – MRS MARY OLIVER MBE

Rwy'n falch o adael i chi gael eich copi o Adroddiad y Llywodraethwyr ar gyfer 2021-2022, mewn blwyddyn arall na fu'n ddim ond arferol.

Yn ystod 2021-22 dychwelodd yr ysgol i ffordd fwy arferol o weithio yn dilyn pandemig COVID. Er hynny fe gafodd effaith ar yr ysgol ar adegau a bu rhaid dilyn y drefn am ran fwyaf o'r flwyddyn.

'Rydym yn hynod o falch o'n plant ac sut maent wedi addasu i ddulliau amrywiol o addysgu a'r holl newidiadau i'w bywyd dyddiol o fewn yr ysgol. Hoffem hefyd ddiolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth ac eu hamynedd yn ystod flwyddyn.

Mae'r plant yn dal ati i weithio yn galed gyda eu dysgu ac yn ein hysbrydoli yn gyson yma yn Ysgol Glan Conwy. Yr wyf yn gwybod fod ein pennaeth, athrawon, chynorthwyrwyr dysgu a'r staff cefnogi ledled yr ysgol, wedi ymrwymo'n llwyr i iechyd a lles yr holl blant, yn ogystal â'u haddysg. Hoffwn unwaith yn rhagor achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu hagwedd gadarnhaol a'u proffesiynoldeb. Yr ydym yn ddiolchgar iawn am eu gwaith caled wrth darparu amgylchedd croesawgar a diogel, nifer o gyfleoedd amrywiol er mwyn ysgogi'r disgyblion i ddatblygu i'w llawn potensial.

WORD FROM THE CHAIRPERSON – MRS MARY OLIVER MBE

I am pleased to let you have your copy of the Governors Report for 2021-2022, in what has been anything but a normal year once again.

During 2021-22 the school returned to a more normal way of working following the COVID pandemic. Having said this, COVID did still affect the school at times and they had to follow stringents rules for most of the year.

We are very proud of the children and how they adapted to various learning techniques and changes in their day to day school life. We would also like to thank parents for your continued support and patience over the year.

The children are working hard to continue with their education and constantly inspire us here at Ysgol Glan Conwy. I know that our head teacher, teachers, teaching assistants and support staff throughout the school, are fully committed to the health and wellbeing of all the children, as well as their education. I would again like to take this opportunity in thanking them for their positive attitude and professionalism over the year. We are very grateful for their hard work preparing a welcoming and safe environment and various opportunities to help our pupils develop to their full potential.

Pob hwyl / Best wishes

Mrs Mary Oliver MBE
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Chair of Governors

YSGOL GLAN CONWY

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHINIENI 2021/22 GOVERNORS ANNUAL REPORT TO PARENTS 2021/22

Mae'r adroddiad hon yn grynodeb o waith y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd 2021/22
This report is a summary of the Governors' work for the academic year 2021/22

Y CORFF LLYWODRAETHOL / GOVERNING BODY:

Enw / Name	Cynrychioli / Represent	Cyfnod / Period
Mrs Mary Oliver MBE	A.A.LI. / L.E.A.	2020/2024
Mr Dewi Williams	A.A.LI. / L.E.A.	2020/2024
Mrs Sharon Doleman	Cynghorydd Sir / County Councillor	2022/2026
Mrs Tracy Hughes	Cymunedol / Community	Flynyddol / Annually
Mr Dave Rees	Cymunedol / Community	2022/2026
Mr Howard Vaughan	Cymunedol / Community	2018/2022
Mrs Stella Senior	Rhieni / Parent	2021/2025
Ms Kelly Hughes	Rhieni / Parent	2018/2022
Mrs Sarah Lesiter-Burgess	Rhieni / Parent	2019/2023
Mrs Alison Peel	Rhieni / Parent	2020/2024
Mrs Catherine Williams	Staff Ategol / Support Staff	2021/2025
Mrs Michelle Evans	Athrawon / Teaching Staff	2018/2022
Mrs Eifiona Price Williams	Pennaeth / Headteacher	

CYFARFODYDD RHINIENI GYDA'R CORFF LLYWODRAETHOL

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr Ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethu trwy gyfrwng deiseb.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod Ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled bod y ddeiseb yn cynnwys llofnod yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr Ysgol, sef yr isafswm o'r canlynol:

- Rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
- Rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

Mae'n rhaid i'r cyfarfod y mae'r rhieni wedi gofyn amdano drafod materion yn berthnasol i'r Ysgol. Ni gynhaliwyd unrhyw gyfarfod rhieni yn ystod y flwyddyn

PARENTS MEETINGS WITH THE GOVERNING BODY

The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 now enables parents of registered pupils at the School to request up to three meetings a year with the Governing Body by petition.

The Governing Body must hold a meeting within 25 School days of receiving a petition, provided that the petition contains the signature of the required minimum number of parents of registered pupils at the School, which is the minimum of:

- Parents of 10% of registered pupils, or
- Parents of 30 registered pupils.

The meeting requested by parents must discuss issues relevant to the School. No parent meetings were held during the year

Disgrifiad o'r Ysgol Medi 2021 / Description of the School September 2021:

Lleolir yr Ysgol ym mhentref Glan Conwy wrth aber yr afon Conwy.

Mae'n Ysgol Gynradd Sirol Feithrin / Babanod / Iau.

Mae'n ysgol ddyddiol cydaddysgol.

Mae 123 o blant, chwech athro llawn amser, yn cynnwys y Pennaeth a pump cymhorthydd dosbarth llawn amser gan gynnwys cymhorthydd dysgu lefel uwch ac un cymhorthydd rhan amser.

Mae'r man chwarae yn cynnwys man wyneb caled, cae'r Ysgol a man pwrpasol i'r plant Meithrin/Derbyn a Blwyddyn1 & 2.

The School is located in the village of Glan Conwy overlooking the Conwy estuary.

The School is a Nursery / Infant / Junior County Primary School.

It is a daily co-educational school.

There are 123 pupils with six full time teachers, including the Headteacher and five full time classroom assistants including a higher level teaching assistant and one part time classroom assistant.

The play areas include a hard surface, the school playing field and an enclosure for the nursery/reception and year 1& 2 children.

Polisi Derbyn yr Ysgol / The School's Admission Policy

Rhan amser y Medi ar ôl i'r plentyn fod yn 3 oed. *Part time in the September following their 3rd birthday.*

Llawn amser y Medi ar ôl i'r plentyn fod yn 4 oed. *Full time in the September following their 4th birthday.*

Adroddiad Ariannol / Financial Report:

Mae cyllideb flynyddol yr Ysgol yn cael ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn rhedeg yn ôl y flwyddyn ariannol arferol yn hytrach na'r flwyddyn academaidd. Roedd balans y cyfrif ar ddiwedd 2021-22 yn £96,977 arian wrth gefn yn dilyn grantiau funud olaf gan Llywodraeth Cymru. Roedd diffyg o £37,643 yng nghyllideb 2022-23. Defnyddiwyd arian wrth gefn a newidiadau eraill er mwyn lleihau'r diffyg. Me hefyd cadw mewn cof fod angen cyllido'r staff presennol tan diwedd Awst 2023 sydd yn ran o'r gyllideb nesaf. Gellr gofyn am gopi o'r fantolen llawn yn y Swyddfa.

Roedd balans o'r cyfrif Ysgol a ddefnyddir o ddydd i ddydd yn dangos £5,839.14 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

The school's annual budget is managed by Conwy County Borough Council and is run according to the financial rather than the academic year. The balance of the reserves held at the end of 2021-22 was £96,977 following some last minute grants by WG. There was a shortfall of £37,643 in the 2022-23 budget. Reserves were used and changes were made in order to reduce the shortfall. We must also remember that we need to finance staffing costs until August 2023. Full statement available on request.

The school's day to day balance showed £5,839.14 at the end of the year (financial/academic).

Grantiau / Grant

- Ton 5 y Rhaglen Hwb. Derbyniwyd £4169.45 i'w wario ar adnoddau TGCh fis Gorffennaf 2021. Rhoddwyd yr archeb i fewn yn syth. Yn ystod Tachwedd 2021 yr ydym wedi derbyn ein 4 sgrin cyffwrdd newydd ar gyfer ein dosbarthiadau.
- Wave 5 Hwb ICT Grant. We received £4169.45 to be spent in July 2021 on ICT Equipment. The order went in straight away as it was an urgent request by LA. November 2021 we received our 4 Clevertouch Display screens for our classes.

Ni wnaethpwyd cais am unrhyw dreuliau gan y Corff.

No claims for expenses were made by the Board.

Dyddiadau ac Amseroedd / Dates and Times:

Gweler Atodiad 1 ar gyfer dyddiadau'r tymhorau ac amseroedd dysgu ar gyfer y flwyddyn hon.
See Appendix 1 for the dates of the terms and times of the teaching sessions for this year.

Cysylltiadau â'r gymuned / Contact with the community:

'Roeddem yn cyfrannu ar gyfer y papur bro lleol, Y Pentan.
We contributed to the local "paper bro" 'Y Pentan'.

PC Dylan yn mynychu'r Ysgol i drafod gwahanol broblemau cymdeithasol gyda'r plant.
PC Dylan attended the school on to discuss various social problems with the children.

Casglwyd 18 o focsyes esgidiau ar gyfer Teams 4 U i'w dosbarthu mewn glwedydd llai ffodus na ni.
We collected 18 filled shoe boxes for Teams 4 U to distribute in countries which are not as fortunate as ours.

Bu i ddisgyblion Bl.1 a 2 weithio ar greu arddangosfa pabïau ar gyfer tu allan i Church House ac i fl.3 wneud cylch o pabïau ar gyfer giât yr ysgol at Sul y Cofio.
Year 1 & 2 class worked to create an exhibition of poppies for the outside of Church House and Yr.3 created a poppy wreath for the school gate to commemorate Remembrance Sunday.

Bu disgyblion yn gweithio ar greu Coeden Nadolig Cymreig ar gyfer yr eglwys.
The pupils created a Welsh themed Christmas tree for church.

Bu bl.3 yn casglu pcedi creision gwag ar gyfer Mrs Warford oedd wedyn yn eu casglu, golchi a'u cludo I Rhyl ar gyfer Crisp Packet Project.com ble cawsant eu trawsnewid yn blancedi ar gyfer pobl sydd yn ddigartref.
Yr.3 collected empty crisp packets for Mrs Warford who picked them up from school every week, washed them and took them to Rhyl for the Crisp Packet Project.com where they were used to make emergency blankets for the homeless.

Cynhaliwyd casgliadau at Plant Mewn Angen £212.25, Apêl Pabi £392.12, Comic Relief / Ymgyrch Wcrain - £320 a diwrnod Siwmpwr Nadolig £105.
We raised money for Children in Need £212.25, Poppy appeal £392.12, Comic Relief / Ukraine fund £320 and Christmas Jumper day £105.

Roedd Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol yn arfer cyfarfod yn rheolaidd ac yn draddodiadol yn trefnu amrywiol weithgareddau er mwyn codi arian er budd y plant. Wrth gwrs, roedd hyn yn anodd iawn dros y flwyddyn academaidd yma. Er hyn maent wedi llwyddo I ariannu eleni.....

- £100 tuag at fainc er cof am Mr Stuart Morris.

The Friends of Ysgol Glan Conwy were meeting on a regular basis to organise various events to raise funds towards the school and of course the children. Unfortunately this academic year has been a difficult one for all involved but the PTA have still managed to fund this year....

- £100 towards a bench in memory of Mr Suart Morris.

Diolch mawr i Mrs Jenny Grant a Mrs Christine Roberts am eu gwaith caled i sicrhau fod gennym gardd ysgol a twnel tyfu sydd yn datblygu yn ddyddiol. Rydym oll yn ddiolchgar am ei pharodrwydd a'i bysedd gwyrdd wrth ymdrin a'r gwaith.

A big thank you to Mrs Jenny Grant and Mrs Christine Roberts for their hard work to ensure we have a flourishing school garden and poly tunnel which is developing on a daily basis. We are all grateful for her eagerness and her green fingers with this project.

STAFFIO / STAFFING

- Bu i'r colled o aelod annwyl iawn o'r staff yma yn Ysgol Glan Conwy, sef Mr Stuart Morris, effeithio ar y staff ac ar yr ysgol gyfan. Aelod a fu yn ran annatod o fywyd a gwaith yr ysgol a'r Gymuned am flynyddoedd maith. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei deulu ar adeg anodd iawn. Roedd hi'n fraint cael adnabod Stuart a bod yn ran o fywyd person arbennig iawn.
- *The loss of a most beloved member of staff here at Ysgol Glan Conwy, Mr Stuart Morris affected the staff and the whole school community. He was an integral part of the school and the community for many years. We would like to extend our deepest sympathy to his family at this difficult time. It was an honour to know Stuart, and be a part of such a special person's life.*

Y CWRICWLWM / THE CURRICULUM

Ceisir sicrhau bod yr addysg sy'n cael ei chynnig yn eang a chytbwys. Credir y bydd yr addysg yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob plentyn sydd yn yr ysgol. Rydym hefyd am wneud yn siŵr bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer pob plentyn, yn eang ac yn gytbwys.

AMCANION CYFFREDINOL

- Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifydddeg yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
- Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fydd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg hysbysiaeth.
- Creu ymhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
- Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
- Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Y cwricwlwm Cenedlaethol 2008 a chwricwlwm cytun Addysg Grefyddol yw sail holl feysydd llafur yr ysgol.

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl doniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

- a) Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
- b) Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifedd Gymreig.
- c) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hon yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y dogfennau.

Ar gyfer pob Maes Dysgu mae'r rhaglen addysgol yn cyflwyno'r hyn y dylid ei ddysgu i blant ac mae'r deilliannau yn pennu safonau perfformio disgwylidig y plant.

Fe lunir polisiâu a Chynlluniau Gwaith ar gyfer yr agweddau hyn ar y cwricwlwm gan yr ysgol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol cynhwysir y meysydd canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Celf a Dylunio, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth,

Addysg Grefyddol ac Addysg Gorfforol, ABACH, a Dinasyddiaeth Byd Eang.

Y CWRICWLWM / THE CURRICULUM

We seek to ensure that the education is broad and balanced. We believe that the education will promote the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of every pupil. We also want to ensure that the curriculum is appropriate for every pupil.

GENERAL OBJECTIVES

- *Develop oracy, literacy and numeracy skills in the context of motivating pupils' curiosity, imagination and interest.*
- *Increase the pupil's knowledge and develop their ability to reason in order to assist them to adapt to a rapidly changing world which is more sophisticated in its processes and techniques, especially in relation to information technology.*
- *Create in every pupil a desire to seek more knowledge and experiences during their life and develop their mind and moral and spiritual sense.*
- *Assist the pupil to be able to live and work with others and develop attitudes which will enable them to be a responsible member of society.*
- *Develop the pupil's sensitivity, aesthetic appreciation and recreation skills.*
- *Pay special attention to every pupil with special needs, e.g. extremely able and some under various disadvantage.*
- *Introduce ideas and concepts through energetic and dynamic methods which demand the pupil's response.*

The 2008 national curriculum and religious education agreed curriculum is the basis of all school syllabuses.

The purpose of an education system is to create situations and supply resources which will enable every pupil to grow into full personalities, to develop and practice every talent, which will provide for them according to age, ability and interest, and qualify them to be a responsible member of a bilingual society, a member who will be able to contribute to it and receive from it, and live in peace and fraternity with fellow citizens.

This general statement has three inter-related aspects:

- Enable every pupil to develop to their full potential.*
- Ensure every pupil is introduced to Welsh heritage.*
- Give every pupil an opportunity to develop as a full member of a rapidly changing society.*

Every school is required to prepare and develop a comprehensive plan, in accordance with the requirements of the national curriculum. This plan will include details on the education course and the method in which it is delivered in order to ensure that the education fully meets the objectives in the documents.

For every learning area the educational programme stipulates what should be taught to pupils and sets the pupils' expected performance standards.

The school prepares policies and schemes of work for these aspects of the curriculum.

In key stage 2 of the national curriculum the following areas are included:

Welsh, English, Mathematics, Science, Design and Technology Art and Design, Information Technology and Communication, History, Geography, Art, Music, Religious Education and Physical Education, PSE and Global Citizenship.

Y CYFNOD SYLFAEN / THE FOUNDATION PHASE

Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r Cwricwlwm yn hybu cyfle cyfartal a gwerthoedd ac yn dathlu amrywiaeth. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cwmpasu anghenion datblygiadol plant a'u sgiliau ar draws y cwricwlwm, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu, gwybodaeth a sgiliau blaenorol.

Mae'r ddogfen 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru yn cyflwyno'r cwricwlwm a'r deilliannau ar gyfer plant 3 i 7 oed yng Nghymru yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

Mae saith Maes Dysgu i'r Cwricwlwm. Bydd y Meysydd Dysgu yma yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd i ddarparu dull traws-gwricwlaidd o greu cwricwlwm perthnasol ac ymarferol.

Y saith Maes Dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol.

In the Foundation Phase the Curriculum promotes equal opportunities and values and celebrates variety. The Foundation Phase includes pupils' developmental needs and cross curricular skills, building upon their learning experiences, knowledge and previous skills.

There are seven learning areas in the curriculum. The learning areas match each other to provide a cross curricular method of creating a practical and relevant curriculum.

The seven learning areas are:

- *Personal and social development*
- *Welfare and cultural variety*
- *Language skills, literacy and communication*
- *Mathematical development*
- *Welsh*
- *Physical and creative*
- *Knowledge and understanding of the world*

Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021/22 Additional Learning Needs:

Mrs E.Price Williams & Miss J.Galvin sydd yn gyfrifol fel athrawon Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mrs E.Price Williams & Miss J.Galvin has the responsibility as the Additional Learning Needs Teachers.

Miss Charlotte Hughes yw'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol a Mrs Mary Oliver yn ysgwyddo cyfrifoldeb y Llywodraethwyr.

Miss Charlotte Hughes is the additional learning needs co-ordinator and Mrs Mary Oliver takes responsibility on behalf of the Governing Body.

Niferoedd y plant sydd ar gamau A.D.Y. / *Number of children on A.L.N. steps.*

Tymor / <i>Term</i>	Gweithredu gan yr Ysgol <i>School Action</i>	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy <i>School Action Plus</i>	Cytundeb Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy / <i>School Action Plus Contract</i>	Datganiadau <i>Statements</i>
	Medi / <i>Sept</i>	Medi / <i>Sept</i>	Medi / <i>Sept</i>	Medi / <i>Sept</i>
Hydref 2021 <i>Autumn 2021</i>	19	11	9	1

Chwaraeon / Sport:

Cafodd Bl.5 a 6 ychydig o hyfforddiant beicio.
Yr.5 & 6 received some cycle training.

Sesiynau Addysg Gorfforol ym mhob dosbarth.
Weekly Physical Education sessions in each class.

Bl.4 – 6 wedi derbyn 10 sesiwn nofio dwys/diogelwch dŵr ym mhwl nofio Llandudno.
Yrs.4 – 6 received 10 intense swimming lessons / water safety at Llandudno swimming pool.

Gweithgareddau Awyr Agored Bl.3 & 4, Nant Bwlch yr Haearn
Year 3 & 4 went for a day of Outdoor Activities at Nant Bwlch yr Haearn Centre.

Gweithgareddau Awyr Agored Bl.5 & 6, Glanllyn
Year 5 & 6 went for a day of Outdoor Activities at Glanllyn

Kerbcraft wedi cynnal sesiynnau yma gyda rhieni sy'n gwirfoddoli a phlant bl.1 ar ddiogelwch wrth y ffordd.
Kerbcraft have held sessions with yr.1 pupils & parent volunteers concerning road safety..

Bu inni gynnal ein mabolgampau am y tro cyntaf ers Covid-19 gan wahodd rhieni i weld ein chwaraeon cylchdroi sydd wedi eu cynllunio i fod yn fwy cynhwysol na'r mabolgampau traddodiadol.
We held our sports day for the first time since Covid-19 inviting parents to join us in our carousel of sports aimed at being more inclusive than the traditional sports day.

Mr Parry wedi Cynnal sesiynau pêl droed ar ôl ysgol i ddisgyblion Bl.5 & 6 ac bu i Miss Jones cynnal sesiynau rygbi i ddisgyblion Bl.3 & 4 ac 1 & 2.
Mr Parry held a football training sessions for Yrs. 5 & 6 and Miss Jones rugby sessions for yrs.3& 4 and 1 & 2.

Disgyblion yn Bl.3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn y 'Rhedeg Dyddiol' er mwyn codi eu lefelau ffitrwydd. Cafodd hyn effaith positif ar wella ffitrwydd disgyblion.
Year 3, 4, 5 & 6 pupils took part in 'The Daily Run' to improve their fitness levels. This had a positive effect on the pupils' fitness.

Targeddu - Blaenoriaethau / Targetting - Priorities:

Mae'r rheoliadau gosod targedau (Rheoliadau Targedau Perfformiad ac Absenoldeb Ysgolion (Cymru) 2011) wedi'u hatal gan Llywodraeth Cymru o'r herwydd nid oes gofyn i ysgolion adrodd ar berfformiad absenoldeb, na thargedau yn yr adroddiad blynyddol eleni.
The target setting regulations (the School Performance and Absence Targets (Wales) Regulations 2011) have been suspended by the Welsh Government, therefore schools are not required to report absence performance nor targets in this year's annual report.

CRYNODEB O FLAENORIAETHAU 2021/22 **TARGEDAU 2021/22 PRIORITIES / TARGET SUMMARY**

Gweler Atodiad 2 / See Appendix 2

Trefniadau diogelwch yr ysgol / The school's safety arrangements:

Ni chaniateir i unrhyw drafndiaeth ddod ar dir yr Ysgol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Pennaeth.
Traffic is not allowed to come onto school land without prior agreement by the Headteacher.

Nid yw'r ysgol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ddisgyblion sydd ar diriogaeth yr Ysgol cyn 8:50 y.b. nac ar ôl 3:10 y.p. (Babanod) neu 3:40 y.p. (Iau).
The school does not accept any responsibility for pupils on school land before 8:50 a.m and after 3:10 p.m. (Infants) or 3:40 p.m. (Juniors).

Cynhelir y Clwb Brecwast o 8:10 hyd 8:30 ac yn gyfrifol am y disgyblion hyd 8:50y.b.
The Breakfast Club is held from 8:10 to 8:30 and is responsible for the children until 8:50am

Categori Iaith / Language Category

Mae'r ysgol yn Categori 4 / *The school is in Category 4.*

Diffiniad yr Ysgol yn ôl Llywodraeth Cymru ydyw:

Ysgol Gynradd Gyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Welsh Government definition of the school:

Mainly an English medium primary with considerable use of Welsh.

Iaith yr Ysgol

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael Profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith a'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer o leiaf 25% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol.

Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Nôd yr ysgol yw galluogi pob disgybl hyd eithaf eu gallu fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Language of the School

Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning in both languages but with greater emphasis on English. In Key Stage 2, both Welsh and English is used in teaching but with greater emphasis on English. Welsh is used as the medium of teaching or learning for at least 25% of the primary curriculum overall. Both languages are used as languages of communication with the pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

The school's aim is to enable every child to be bilingually confident so that they become full members of the bilingual society of which they are members.

Cyfleusterau Toiled a Ddarperir gan yr Ysgol / Toiled Facilities that are Provided by the School

Mae 3 ardal ar gyfer toiledau o fewn prif adeilad yr ysgol. Un sy'n cynnwys toiledau llai, 'urinal' a sinciau is ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen; toiledau arwahan i ferched a bechgyn ar gyfer y plant hŷn; a 2 doiled unigol wrth ymyl yr ystafell athrawon ar gyfer staff, ymwelwyr ac hefyd merched hŷn yr ysgol sydd wedi dechrau ar eu cylchred misol. Mae un o doiledau'r staff yn cynnwys bocs i roi gwastraff mislif ynddo sy'n cael ei wagio gan gwmni allanol. Mae toiled yn y caban sydd yn cael ei ddefnyddio gan y Ysgol Feithrin, Cylch Ti a Fi ac hefyd Clwb ar Ôl Ysgol. Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan lanhawyr yr ysgol. Maent mewn cyflwr da iawn.

There are 3 areas for toilets in the main school building. One has smaller toilets, a low urinal and lower sinks for Foundation Phase pupils; there are separate toilets for the male and female older pupils; by the staff room there are 2 separate toilets for the staff, visitors and older girls who have started menstruating. One of these toilets contains a sanitary disposal unit which is emptied by an outside specialised company. The toilet located in the outside cabin is used by the Ysgol Feithrin, Mother & Toddler group and the after School Club. The toilets are cleaned daily by the school cleaning staff. They are in a good condition.

DATA CYMHAROL DDIWEDDAR

Mae datblygiad disgyblion yn cael ei fonitro yn gyson. Mae'r ysgolion yn defnyddio eu system dracio ein hunain i gofnodi canlyniadau yn ogystal â system dracio ar-lein yr Assessment Foundation. Mae datblygiad ar y pwyslais i 'Asesu ar gyfer dysgu' fel modd o asesu'r disgyblion yn barhaus. Anogir disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Cedwir cofnod o ddatblygiad eich plentyn yn yr ysgol ac fel rhieni/gwarcheidwaid mae gennych hawl i weld y cofnodion hyn.

Gwahoddir rhieni/gwarcheidwaid i'r ysgolion i drafod cynnydd eu plentyn gyda'r athrawes ddosbarth yn dymhorol pan rennir adroddiad cryno gyda chwi. Hefyd, mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ysgol i drefnu apwyntiad i gael trafodaeth gyda'r athrawon neu'r Pennaeth os dymunant. Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr i rieni/gwarcheidwaid ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd.

RECENT COMPARATIVE DATA

Pupil development is regularly monitored. Schools use their own tracking system to record results as well as the Assessment Foundation's online tracking system. There is a development of the emphasis on 'Assessment for learning' as a means of continuous assessment of pupils. Pupils are encouraged to take responsibility for their own learning. A record of your child's development is kept at school and as parents / guardians you have a right to see these records.

Parents / guardians are invited to the schools to discuss their child's progress with the class teacher each term when a summary report is shared with you. Parents are also welcome to contact the school at any time during the school year to arrange an appointment to have a discussion with the teachers or the Headteacher if they so wish. A comprehensive written report will be presented to parents / guardians at the end of the academic year.

Ysgol Iach / Healthy School

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy eu polisi 'Bwyd a ffitrwydd' a thrwy fagu ethos bwyta'n iach o fewn yr ysgol. Mae croeso i blant ddod a ffrwyth i'r ysgol ar gyfer eu byrbryd ond ddim bar siocled, bisged neu fferins. Mae 2 ffynnon ddŵr yn yr ysgol ar gyfer defnydd y plant a'r staff (yn anffodus nid ydym yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd oherwydd rheoliadau Covid-19). Ni chaniateir iddynt ddod a diodydd 'fizzy' neu 'pop' i'r ysgol. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo trwy ein gwersi a'n themau megis thema 'Bwyd' a thrwy gweithgareddau gwyddoniaeth.

Cynnigir cinio ysgol sydd wedi ei gynllunio'n ofalus gan ddeiategydd i fod yn gytbwys a iach i'r disgyblion yn ddyddiol. Mae hyn yn ran o Wasanaeth Arlwyo yr Awdurdod Lleol.

The school promotes healthy eating and drinking through the 'Food and Fitness' policy and by promoting an ethos towards eating healthily within the school. Every child is welcome to bring a fruit to school for their break, chocolate bars, biscuits, sweets etc are not allowed. There are 2 water fountains in the school for the children and staff to use (unfortunately we are not allowed to use them at the moment due to Covid-19 restrictions). They are not allowed to bring fizzy drinks or 'pop' to the school. Healthy eating is promoted through lessons and school themes such as 'Food' and through science activities.

The daily school dinner which the children can have has been carefully planned by a dietician to be balanced and healthy. This is part of the LA Catering Service.

Cydraddoldeb / Equality :

Polisi'r ysgol yw hyrwyddo pob disgybl i gyrraedd ei botensial beth bynnag yw ei ryw, hil, crefydd, anghenion ychwanegol neu gefndir cymdeithasol.

The school's policy is to ensure every pupil reaches his/her full potential whatever their sex, race, religion, additional needs or social background.

Polisiau a adolygwyd gan y Corff Llywodraethol / Policies which were reviewed by the Governing Body:

- Polisi Amseroedd Sesiynau / School Session Time Policy
- Polisi Derbyn / Admission Policy
- Polisi Iechyd a Diogelwch / Health and Safety Policy
- Polisi Di-fwg / Smoke Free Policy
- Polisi Trefn Fodel i Drin Sefyllfaoedd Digyflogi Mewn Ysgolion / Model Procedure For Dealing With Redundancy Situations Within Schools
- Polisi Amddiffyn Plant / Child Protection Policy
- Polisi Rheoli Perfformiad / Performance Management Policy
- Polisi Mwy Abl a Thalentog / More Able and Talented Policy
- Rheoli Gwrth-fwlio / Anti-Bullying Policy
- Polisi Cwynion / Complaints Policy
- Polisi Diabetes / Diabetes Policy
- Polisi Cwynion – a basiwyd trwy'r Undebau, 18 mis yn ôl – dull gweithredu 18 pwynt sbarduno/ Grievance Policy – passed through Unions, 18 months ago- trigger point procedure.
- Polisi Hunaniaeth Rhywedd / Gender Identity Policy
- Polisi Disgyblu / Disciplinary Policy
- Polisi Toiledau / Toilet Policy
- Polisi Medusrwydd / Capability Policy
- Polisi Urddas yn y Gweithle / Dignity at Work Policy
- Polisi Cloi Iawr / Lockdown Policy
- Polisi Ymddygiad Rhieni / Parent Code of Conduct Policy
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol / Social Media Policy
- Polisi Ymdrin â Rhieni/ Gwarcheidwaid Dyfalbarhaus a Blinderus / Dealing with Persistent & Vexatious Parents/Guardians Policy
- Egwyddorion Ymddygiad Llywodraethwyr Ysgolion Cymru / Principles of Conduct for Governors of Schools in Wales

Adroddiad Blynyddol ar Weithredu Ôl-arolwg / Annual Post Inspection Report:

Gweler Atodiad 3 / See Appendix 3

NEWIDIADAU I BROSPECTWS YR YSGOL

- Cynhwysa'r prospectws yr holl wybodaeth berthnasol gyda'r dyddiadau yn unig wedi eu newid ar gyfer argraffiad 2022-2021 ynghyd a enwau Llywodraethwyr newydd.
- Diweddarwyd y lluniau yn berthnasol.

SUMMARY OF CHANGES TO SCHOOL PROSPECTUS

- The school prospectus included all relevant information and was updated for 2022-23 with term dates and the names of new Governors.
- Photographs were updated accordingly.



(2022-23)



**Dyddiadau Gwyliau Ysgol
a Dyddiau Hyfforddiant
Mewn Swydd**

**School Holiday Dates
and
Staff Training Days**

HYDREF	2022-2023	AUTUMN
Hyfforddiant Mewn Swydd	01/09/2022	<i>Staff Training Day</i>
Hyfforddiant Mewn Swydd	02/09/2022	<i>Staff Training Day</i>
Dechrau'r Tymor i Ddisgyblion	05/09/22	<i>Term Start for Pupils</i>
Cau Hanner Tymor	28/10/22	<i>Half Term Close</i>
Agor Hanner Tymor	07/11/22	<i>Half Term Open</i>
Diwedd Tymor i Ddisgyblion	22/12/22	<i>End of Term for Pupils</i>
Hyfforddiant Mewn Swydd	23/12/2022	<i>Staff Training Day</i>
GWANWYN	SPRING	
Hyfforddiant Mewn Swydd	09/01/23	<i>Staff Training Day</i>
Dechrau'r Tymor i Ddisgyblion	10/01/23	<i>Term Start for Pupils</i>
Cau Hanner Tymor	18/02/23	<i>Half Term Close</i>
Agor Hanner Tymor	27/02/23	<i>Half Term Open</i>
Diwedd Tymor	31/03/23	<i>End of Term</i>
HAF	SUMMER	
Hyfforddiant Mewn Swydd	17/04/23	<i>Staff Training Day</i>
Dechrau'r Tymor i Ddisgyblion	18/04/23	<i>Term Start for Pupils</i>
Dydd Gwyl Fai	01/05/23	<i>May Day</i>
Cau Hanner Tymor	26/05/23	<i>Half Term Close</i>
Agor Hanner Tymor	05/06/23	<i>Half Term Open</i>
Hyfforddiant Mewn Swydd	23/06/2023	<i>Staff Training Day</i>
Diwedd Tymor	20/07/23	<i>End of Term</i>

ORIAU DYSGU / TEACHING HOURS

Meithrin	12.5 awr yr wythnos	Nursery	12.5 hours per week
Babanod	21 awr yr wythnos	Infants	21 hours per week
Iau	23.5 awr yr wythnos	Juniors	23.5 hours per week

Sesiwn y bore Meithrin	9:00 – 11:30	<i>Morning Session Nursery</i>
Sesiwn y Bore Babanod	9:00 – 12:00	<i>Morning Session Infants</i>
Sesiwn y bore Iau	9:00 – 12:05	<i>Morning Session Juniors</i>
Sesiwn y Prynawn Babanod	1:00 – 3:00	<i>Afternoon Session Infants</i>
Sesiwn y Prynawn Iau	1:00 – 3:30	<i>Afternoon Session Junior</i>

ATODIAD 2 / APPENDIX 2

**CRYNODEB O FLAENORIAETHAU 2021/22
TARGEDAU 2021/22 PRIORITIES / TARGET SUMMARY**

	Effaith ar ddisgyblion Impact on Pupils	Dyddiad Gweithredu Implementation Date
<p>Cynllun Ôl Arolwg A1. Gwella llawysgrifen a sillafu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 A2. Gwella medrau trin data disgyblion mewn TGCH yng nghyfnod allweddol 2 Post Inspection Plan R1. Improve pupil handwriting and spelling in key stage 2 R2. Improve ICT data handling skills in KS 2</p>	<ul style="list-style-type: none"> Datblygiad amlwg i'w weld yn sgiliau llawysgrifen y disgyblion. Hyn i'w ddatblygu ymhellach flwyddyn nesaf. Sillafu – mae gwelliant ond dal lle i wella felly angen parhau y flwyddyn nesaf. Targed hir dymor. Safonau wedi gwella yn Bl.5 a 6. Pasbort Digidol yn ddull o sicrhau fod hyn yn datblygu ym mhob dosbarth. Angen monitro a sicrhau fod hyn yn parhau'r flwyddyn nesaf i weld y datblygiad trwy'r ysgol gyfan. <i>Clear development to be seen in pupils' handwriting skills. To be further developed next year.</i> <i>Spelling – there has been improvement, but there is still room for further improvement, therefore need to continue next year. Long term target.</i> <i>Standards have improved in Yrs. 5 & 6. Digital Passport a means of ensuring this develops in every class. Need to monitor to ensure continuation for next year and see development throughout whole school.</i> 	<p>Medi 2021 September</p>
<p>Blaenoriaeth 1 Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd Priority 1 <i>Prepare for the new curriculum</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Llais y Disgybl yn cael ei ddatblygu trwy'r ysgol. Angen mwy o dystiolaeth o Llais y Disgybl yn ran o gynllunio o fewn y dosbarth yn ogystal a'r ysgol. Athrawon wedi derbyn hyfforddiant gan GwE ar y Cwricwlwm Newydd ond dal angen mwy. Wythnosau'r 4 Diben wedi bod yn fodd o godi ymwybyddiaeth ohonynt & cystadleuaeth dewis logo gan y dysgwyr. Rhain wedi llwyddo. Cam nesaf ydi pwyllgorau 4 Diben flwyddyn nesaf er mwyn datblygu rhain trwy'r ysgol gyfan yn ogystal a mewn dosbarthiadau. <i>Pupil Voice developing throughout the school. Need more evidence of Pupil Voice within the class planning as well as whole school.</i> <i>Teachers have received training by GwE on the New Curriculum but still need more.</i> <i>The 4 Purposes Weeks have been a way to raise awareness and we have held a competition for the pupils to choose the logos. These have been successful. The next step is forming committees for the 4 Purposes next year to develop these throughout the school and in the classroom</i> 	<p>Hydref 2021 October</p>
<p>Blaenoriaeth 2 Codi safonau Cymraeg Ail laith trwy'r ysgol gyfan & gweithio ar amcanion Cymraeg Campus Priority 2 <i>Raise standards in Second language Welsh throughout the whole school & working on Cymraeg Campus aims</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Roedd disgyblion yn llawer mwy hyderus erbyn bl.5 a 6 i sgwrsio yn y Gymraeg. Gwaith Helpwr Heddiw yn gymorth mawr ar gyfer datblygu sgiliau gofyn ac ateb cwestiynau yn y dosbarthiadau eraill. Mwy o Gymraeg i'w glywed yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r disgyblion yn deall llawer mwy ond yn gyndyn o ymateb heb anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Digwyddiadau Cymreig dros y flwyddyn (e.e. Diwrnod Miwsig Cymraeg, Dydd Gwyl Ddewi, wythnos Cymraeg a.y.b.) wedi gweithio ar godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymreig ac o ddefnyddio'r Gymraeg ar yr adegau hynny. Wedi derbyn achrediad Efydd Cymraeg Campus erbyn Haf 2022. Cyfnodau clo a cyfnodau hunan ynysu llynedd yn bendant wedi effeithio ar sgiliau Cymraeg y disgyblion ac angen dal ati i gyrraedd 30% o addysgu trwy'r Gymraeg erbyn Haf 2023. <i>Various activities over the year helped to raise awareness of Welsh culture and using Welsh in different scenarios (Welsh Music Day, St David's Day, Cymraeg week etc.). Received the bronze Cymraeg award by Summer 2022.</i> <i>Lockdown and self-isolation periods last year has had an impact on the pupils' Welsh skills and we need to continue to reach 30% Welsh medium education by Summer 2023.</i> 	<p>Hydref 2021 October</p>

<p>Blaenoriaeth 3 Adolygu a datblygu ymhellach Asesu ar gyfer Dysgu & Meddylfryd Twf</p> <p>Priority 3 <i>Review and further develop Assessment for learning and Growth Mindset</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi cychwyn arno. Staff wedi derbyn hyfforddiant. • Asesu ar gyfer dysgu wedi ei ddatblygu yn rhannol ond angen datblygu hwn ymhellach ac hefyd Meddylfryd Twf yn dilyn prosiect Shirley Clarke. • Partneriaid Perffaith yn cael eu defnyddio ym mhob dosbarth ymysg strategaethau eraill. • Staff wedi dychwelyd yn dilyn cyfnodau mamolaeth Medi 2022 felly angen sicrhau dilyniant a pharhad trwy'r ysgol yn dilyn trafodaethau Hydref 2022. • <i>Have started. Staff received training. Assessment for Learning has partially developed but needs to be developed further and also Growth Mindset following Shirley Clarke's project.</i> • <i>Perfect Partners used in every class with other strategies.</i> • <i>Staff returned after maternity leave in September 2022, therefore need to ensure continuation throughout the school following discussion in October 2022.</i> 	<p>Hydref 2021 October</p>
---	--	------------------------------------

ATODIAD 3 / APPENDIX 3

Adroddiad Blynyddol ôl Arolwg / Post Inspection Annual Report

	Cyfrifoldeb Responsibility	Cyflawni Achieved	Monitro / Datblygiad Pellach Monitor / Further Development
<p>Argymhelliad 1 (A1)</p> <p>Gwella llawysgrifen a sillafu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 <i>Improve pupil handwriting and spelling in key stage 2</i></p>	<p>EPW JP RhE MJ ChH</p>	<p>Trwy'r amser <i>All the time</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygiad amlwg i'w weld yn sgiliau llawysgrifen y disgyblion. Hyn i'w ddatblygu ymhellach flwyddyn nesaf. • Sillafu – mae gwelliant ond dal lle i wella felly angen parhau y flwyddyn nesaf. Targed hir dymor. • Safonau wedi gwella yn Bl.5 a 6. • Pasbort Digidol yn ddull o sicrhau fod hyn yn datblygu ym mhob dosbarth. Angen monitro a sicrhau fod hyn yn parhau'r flwyddyn nesaf i weld y datblygiad trwy'r ysgol gyfan. • <i>Clear development to be seen in pupils' handwriting skills. To be further developed next year.</i> • <i>Spelling – there has been improvement, but there is still room for further improvement, therefore need to continue next year. Long term target.</i> • <i>Standards have improved in Yrs. 5 & 6.</i>
<p>Argymhelliad 2 (A2) Recommendation</p> <p>Gwella medrau trin data disgyblion mewn TGCH yng nghyfnod allweddol 2 <i>Improve ICT data handling skills in key stage 2</i></p>	<p>EPW JP</p>	<p>Trwy'r amser <i>All the time</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Safonau wedi gwella yn CA2. Pasbort Digidol yn ddull o sicrhau fod hyn yn datblygu ym mhob dosbarth. • <i>Standards have improved in KS2. Digital Passport is a method of ensuring that this develops in every class.</i>

